CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

## Rhondda Cynon Taf CBC

## Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

# Dogfen Egwyddorion Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Medi 2023**

Mae Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob disgybl fynediad i ysgolion rhagorol sy'n darparu addysg o ansawdd uchel sy'n eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl a gwireddu eu huchelgeisiau. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein datganiad cenhadaeth: 'Ymdrechu i sicrhau tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a gwell lles i bawb'.

Wrth wneud hynny, mae Rhondda Cynon Taf yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) (Cymru) 2018 a'i God Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gorfodol ar gyfer Cymru 2021.

Bwriad y cod yw:

> Helpu i greu system addysg gwbl gynhwysol lle caiff plant a phobl ifainc y cyfle i lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i gymryd rhan mewn dysgu, mwynhau dysgu ac elwa ohono.

Mae'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r system ADY yng Nghymru fel a ganlyn:

**Dull gweithredu seiliedig ar hawliau** lle mae barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, y person ifanc a'i rieni/gwarcheidwaid yn ganolog i gynllunio a darparu cymorth; a bod y plentyn, y person ifanc a'i rieni/gwarcheidwaid yn cael eu galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau. Mae modd cyflawni hyn trwy weithredu Arfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

**Nodi yn gynnar, ymyrryd a chynllunio pontio effeithiol** lle caiff anghenion eu nodi a darpariaeth ei rhoi yn ei lle cyn gynted â phosibl.

**Cydweithio** lle mae gwasanaethau'n gweithio ar y cyd i sicrhau bod ADY yn cael eu nodi'n gynnar a bod cefnogaeth gydlynol briodol ar waith i alluogi plant a phobl ifainc i gael disgwyliadau a phrofiadau cadarnhaol a chyflawni deilliannau cadarnhaol.

**Addysg gynhwysol** sy'n cefnogi cyfranogiad llawn mewn addysg brif ffrwd, lle bynnag y bo'n ymarferol, a dull lleoliad cyfan o ddiwallu anghenion plant a phobl ifainc ag ADY.

**System ddwyieithog** lle caiff pob cam rhesymol eu rhoi ar waith i gyflwyno Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) yn Gymraeg.

Mae'r ffactorau a'r ystyriaethau sylfaenol ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau yn Rhondda Cynon Taf mewn perthynas ag ADY a'r DDdY sydd ei hangen i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY, ar lefel ysgol ac ALl, yn cael eu llywio gan y nod a'r egwyddorion a ddisgrifir uchod.

## Diffiniad ADY

At ddibenion y Ddeddf, dyma ddiffiniad y term 'anghenion dysgu ychwanegol':

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (boed yr anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd os oes ganddo ef/ganddi hi —

> (a) anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster sydd gan y rhan fwyaf o blant o'r un oedran, neu
>
> ( b ) anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sydd yn ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath sy'n cael ei ddarparu yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd eraill yn y sector addysg.

(3) Mae gan blentyn sy'n iau na'r oedran addysg gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os y byddai, neu y byddai'n debygol o fod yn rhan o isadran (2) ar ôl cyrraedd oedran ysgol gorfodol petai dim darpariaeth ddysgu ychwanegol ei roi ar waith.

(4) Does dim gan berson anhawster dysgu neu anabledd oherwydd bod yr iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae'n cael ei addysgu ynddi neu y bydd yn cael ei haddysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) y cartref.

I grynhoi, mae'r defnydd o'r term ADY yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc sydd ag anhawster dysgu neu anabledd (boed yr anhawster dysgu neu anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am DDdY.

Mae llawer o blant a phobl ifainc yn debygol o brofi problemau tymor byr gyda'u haddysg ar ryw adeg, er enghraifft cyfnod o absenoldeb o leoliad addysg oherwydd salwch dros dro, neu oherwydd eu bod wedi dioddef profedigaeth neu ryw drawma arall. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen i ysgolion gymryd camau i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddal i fyny a/neu atal y mater rhag gwaethygu. Fyddai'r sefyllfaoedd hyn ddim fel arfer yn gyfystyr ag ADY ar eu pen eu hunain, ond mae'n bosibl y gallai hyn, mewn rhai achosion, arwain at anhawster dysgu sy'n galw am DDdY.

Wrth nodi ADY mae'n bwysig deall bod plant yn gwneud cynnydd ar wahanol gyfraddau a dydy'r hyn sy'n ymddangos yn dangyflawni o'i gymharu â disgyblion eraill o'r un oedran ynddo'i hun ddim yn golygu bod gan ddisgybl ADY. Fel y nodir yn y Cod (20.10) efallai bod rhai disgyblion yn gwneud cynnydd da o fan cychwyn is a bydd gan rai disgyblion lefelau gallu a chyrhaeddiad is a fydd yn gwneud cynnydd ar gyfradd arafach ond cyson. Mae'n hanfodol bod y disgyblion hyn yn gallu manteisio ar gwricwlwm sydd wedi'i wahaniaethu'n briodol i'w galluogi i wneud cynnydd addas. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn gyfystyr â DDdY.

Lle ystyrir bod cynnydd yn llai na'r disgwyl dros amser a dyw'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgybl a'i gyfoedion heb gael sylw er gwaethaf cymhwyso addysgu

gwahaniaethol ac ymyriadau safonol wedi'u targedu, byddai hyn fel arfer yn dangos y gallai fod gan y disgybl ADY.

Mae adran 20.8 o'r Cod yn nodi cynnydd llai na'r disgwyl fel cynnydd sydd:

- yn sylweddol arafach na chynnydd ei gyfoedion sy'n cychwyn o'r un llinell sylfaen;
- yn methu â chyfateb neu ragori ar gyfradd cynnydd blaenorol y plentyn neu'r person ifanc;,
- wedi methu â chau, neu ehangu'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion, er gwaethaf cymorth sydd wedi'i ddarparu er mwyn cau'r bwlch hwnnw (megis addysgu gwahaniaethol).

Cydnabyddir hefyd ei bod yn amlwg i rai plant o'r cychwyn y bydd angen DDdY (Cod ADY 20.17).

**Egwyddorion ar gyfer penderfynu a ddylai ysgol neu ALl sicrhau Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)**

Mae Adran 12.44 o'r Cod yn nodi:

**dylai** awdurdodau lleol**,** mewn ymgynghoriad ag ysgolion maen nhw'n eu cynnal, ac unrhyw bersonau eraill sy'n berthnasol yn eu barn nhw, sefydlu a chyhoeddi cyfres o egwyddorion y byddan nhw'n eu defnyddio wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol sicrhau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) sy'n ofynnol gan ddisgybl neu a yw'r dylai awdurdod wneud hynny.

**Dylai** egwyddorion ymwneud â:

a) Graddau a hyd y cyngor gan arbenigwyr allanol sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei sicrhau;

b) Yr offer sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol eu darparu;

c) Dwyster a hyd y gefnogaeth a graddfa ymgysylltiad mewnol staff (gan gynnwys y Cydlynydd ADY) yn yr ysgol y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei darparu.

Mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r egwyddorion y bydd Rhondda Cynon Taf yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i gefnogi plant a phobl ifainc ag ADY.

**Cynhwysiant**

Mae RhCT wedi ymrwymo i hyrwyddo addysg gynhwysol lle mae mwyafrif y plant a phobl ifainc ag ADY yn cael eu cefnogi i gyfranogi'n llawn mewn addysg brif ffrwd ac mae'n egwyddor greiddiol i Gynllun Strategol Addysg RhCT.

Bydd gwasanaethau ADY canolog ac ysgolion yn cydweithio i sicrhau bod dull lleoliad cyfan yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY a bod staff mewn ysgolion yn cael eu huwchsgilio i ddiwallu ystod o anghenion dysgu ac ADY trwy wahaniaethu o ansawdd uchel fel rhan o'u darpariaeth ddysgu gyffredinol a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY).

Mae Rhondda Cynon Taf yn disgwyl i bob ysgol gael yr elfennau 'cyffredinol' canlynol yn eu lle i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cael mynediad i amgylchedd dysgu cwbl gynhwysol:

- Diwylliant sefydliadol sy'n cadarnhau 'Mae ADY yn fusnes i bawb'.
- Dealltwriaeth gyffredinol gadarn o addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel ymhlith y gweithlu.
- Ymgorffori arfer cynhwysol sy'n gwneud addasiadau rhesymol priodol i alluogi mynediad i amgylchedd, cwricwlwm a chyfleusterau'r ysgol a diwylliant sy'n annog ymdeimlad o berthyn.
- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda sy'n adlewyrchu dealltwriaeth o'r Ddeddf ac sy'n ymgorffori ADY o fewn y cynllun datblygu ysgol a gweithgaredd meithrin gallu'r ysgol.
- Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) gyda rôl strategol gydnabyddedig sy'n dylanwadu ar bolisi'r ysgol a'r cwricwlwm a gynigir yn ogystal ag annog ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn niwylliant yr ysgol.
- Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n dangos tystiolaeth bod cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau wedi'i annog a bod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i rieni/gwarcheidwaid a'r person ifanc wedi'u hystyried o ddifrif.
- Trefniadau cadarn ar gyfer nodi ADY yn gynnar a darparu cymorth ac ymyrraeth wedi'i dargedu gan ddefnyddio offer a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd ac effeithiolrwydd ymyriadau gan gynnwys eglurder ynghylch sut mae cyllid dirprwyedig yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo cynnydd ar gyfer plant a phobl ifainc ag ADY (gwerth ychwanegol).
- Trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundebau neu anghydfodau yn gynnar ac osgoi gwaethygu anghenion a darpariaeth.

**Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol**

Mae Pennod 20 o'r Cod ADY yn esbonio nad yw cynnydd araf a chyrhaeddiad isel o reidrwydd yn golygu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY. Ar gyfer y plant hynny nad oes ganddyn nhw anabledd penodol, yn y lle cyntaf, bydd arsylwi ac asesu eu cynnydd yn darparu gwybodaeth am feysydd lle nad ydyn nhw'n gwneud cynnydd boddhaol. Mae modd defnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth i fesur cynnydd, a rhestrir rhai ohonynt yn Adran 20.4 y Cod.

Mae disgwyl i bob ysgol a lleoliad addysg roi strategaethau addysgu gwahaniaethol ac ymyriadau eraill sy wedi'u targedu ar waith sydd wedi'u cynllunio i sicrhau cynnydd gwell i bob disgybl. Fel sydd wedi'i nodi yn Adran 20.15, *'bydd angen gwahaniaethu rhyw agwedd o addysg y rhan fwyaf o blant a phobl ifainc ar ryw adeg.* ***Dyma elfen sylfaenol ac arferol o addysgu ansawdd uchel.'***

Ystyrir bod hyn yn rhan o'r ddarpariaeth addysgu a dysgu o ansawdd uchel sydd ar gael yn gyffredinol i bob disgybl mewn lleoliad addysgol yn Rhondda Cynon Taf a chyfeirir ati fel 'Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol'.

**Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol wedi'i chynnal gan yr Ysgol (DDdY)**

Yn unol ag egwyddorion y ddeddfwriaeth ADY, bydd anghenion addysgol ac ADY y rhan fwyaf o blant a phobl ifainc yn cael eu nodi a'u diwallu o fewn ysgolion prif ffrwd. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, yr ysgol brif ffrwd a gynhelir fydd yn penderfynu a oes gan ddisgybl ADY ac yn dilyn hynny bydd dyletswydd statudol ar yr ysgol i baratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer y disgybl sy'n manylu ar y DDdY briodol y bydd y disgybl yn ei wneud. derbyn i ddiwallu eu ADY a nodwyd.

Mae'r Cod ADY yn nodi sut y dylai ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol fabwysiadu ymateb graddedig i fodloni'r ADY plant a phobl ifainc a nodwyd, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau. Fel sydd wedi'i nodi yn Adran 20.23 y Cod, *'Mae hyn yn golygu y dylai'r DDdY fod ar y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc sydd wedi'i nodi'.*

Mae'r Cod yn nodi'n glir *'dylai ysgolion a SAB wneud defnydd llawn o'u hadnoddau cyn cyflwyno arbenigwyr i fynd i'r afael â'r anawsterau y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn eu profi'.*

Mewn llawer o achosion bydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a roddir ar waith i ddechrau gan ysgolion prif ffrwd yn ddigon i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn llawn neu i'w datrys. Dim ond ar gyfer achosion sy'n parhau i beri pryder y bydd angen cynyddu neu newid y ddarpariaeth. Lle mae ysgolion prif ffrwd yn rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith, efallai y bydd angen llai o DDdY dros amser ar rai plant a phobl ifainc wrth i'w hanghenion gael eu diwallu'n llwyddiannus.

Gall asiantaethau allanol, gan gynnwys Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant Rhondda Cynon Taf, gefnogi'r broses o benderfynu a oes gan berson ADY a phennu'r DDdY sydd ei hangen mewn sawl ffordd. Mae modd iddyn nhw gynnig cyngor a chymorth i staff gyda strategaethau neu gael rhagor o wybodaeth, cynnal asesiadau a/neu arsylwadau i ddarparu rhagor o wybodaeth am anghenion y plentyn neu berson ifanc ac awgrymu ymyriadau. Yn rhan o'u rôl statudol, rhaid i Gydlynwyr ADY sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi DDdY disgybl yn ôl yr angen. Bydd angen cymorth asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol ar rai disgyblion ag ADY. Cyfrifoldeb y Cydlynydd ADY fydd cysylltu â'r gwasanaethau arbenigol hyn a phan fydd cytundeb i ddarparu gwasanaethau o'r fath, sicrhau eu bod yn cael eu diogelu.

Bydd pob CDU a gynhelir gan ysgolion prif ffrwd yn cael eu hariannu o gyllidebau dirprwyedig yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyllideb gyffredinol yr ysgol a'u dyraniad Cyllid Ehangu Darpariaeth i fodloni'r DDdY sydd wedi'i chynnwys mewn CDU ar gyfer pob disgybl.

Yn dilyn ymgynghoriad gyda phenaethiaid, mae ysgolion prif ffrwd yn derbyn Cyllid Ehangu Darpariaeth dirprwyedig fel a ganlyn:

- **Sector Cynradd:** Mae rhan o'r cyllid yn cael ei gadw i ganiatáu i'r Awdurdod Lleol gynnal cronfa wrth gefn ar gyfer anghenion meddygol/corfforol cyn ei

ddyrannu. Mae'r cyllid sy'n weddill yn cael ei ddyrannu gan ddefnyddio niferoedd y disgyblion, a hynny wedi'u pwysoli'n ddwbl tuag at ddisgyblion blynyddoedd cynnar (disgyblion amser llawn yn y meithrin a'r dosbarth derbyn) (50%) a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (50%), ac mae'n cynnwys isafswm cyllid sy'n cyfateb i 0.5 Cynorthwyydd Cynnal Dysgu.

- **Sectorau Uwchradd/Pob oed:** Does dim cyllid yn cael ei gadw - mae'r holl arian yn cael ei ddyrannu i ysgolion. Mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu gan ddefnyddio niferoedd disgyblion (wedi'u pwysoli 50%) a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (50%) ac mae'n cynnwys isafswm cyllid sy'n cyfateb i 0.5 Cynorthwy-ydd Cynnal Dysgu.

Mae Cyllid Ehangu Darpariaeth wedi cynyddu 13% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd diwethaf i gefnogi ysgolion prif ffrwd i ddarparu DDdY briodol.

### Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol a Gynhelir gan Awdurdod Lleol (DDdY)

Bydd Rhondda Cynon Taf yn paratoi ac yn cynnal CDU ar gyfer disgyblion sy'n cael mynediad i leoliadau yn y lleoliadau arbenigol canlynol:

| Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
| Ysgol Gynradd Cwm-bach | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 18 |
| Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 18 |
| Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 18 |
| Ysgol Gynradd Pen-rhys | BL3 – BL 6 | 2 | 20 |
| Ysgol Gymuned Glynrhedynog | BL7 – BL11 | 1 | 14 |
| Ysgol Uwchradd Tonyrefail | BL7 – BL11 | 1 | 14 |
| Ysgol Uwchradd Treorci | BL7 – BL11 | 1 | 14 |
| **CYFANSWM** | | **11** | **116** |

| Dosbarthiadau Arsylwi ac Asesu | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
| Ysgol Gynradd Abercynon | Blynyddoedd Cynnar | 1 | 8 |
| **CYFANSWM** | | **1** | **8** |
| | | | |

| Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
| Ysgol Gynradd yr Hafod | BL3 – BL 6 | 1 | 10 |
| Ysgol Gynradd Maes-y-bryn | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 18 |
| Ysgol Gynradd Maes-y-deri | BL3 – BL 6 | 1 | 8 |
| Ysgol Gynradd Pen-y-waun | BL3 – BL 6 | 1 | 10 |
| Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 18 |
| Ysgol Gynradd Trewiliam | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 18 |
| Ysgol Gymunedol Aberdâr | BL7 – BL11 | 2 | 24 |
| Ysgol Gyfun Bryncelynnog | BL7 – BL11 | 1 | 12 |
| Ysgol Afon Wen | BL7 – BL11 | 1 | 14 |
| Ysgol Gymuned y Porth | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 18 |
| | BL7 – BL11 | 3 | 36 |
| **CYFANSWM** | | **18** | **186** |

| Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Lleferydd ac Iaith | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
| Ysgol Gynradd Llwyn-crwn | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 16 |
| Ysgol Afon Wen | BL7 – BL11 | 1 | 12 |
| **CYFANSWM** | | **3** | **28** |

| Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd â nam ar y clyw | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
| Ysgol Gynradd Llwyn-crwn | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 1 | 10 |
| **CYFANSWM** | | **1** | **10** |

**Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol**

| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Bodringallt | BL3 – BL 6 | 1 | 8 |
| Ysgol Gynradd y Cefn | BL3 – BL 6 | 1 | 8 |
| Ysgol Iau y Cymer | BL3 – BL 6 | 1 | 8 |
| Ysgol Gynradd Gymuned Glenbói | BL3 – BL 6 | 1 | 8 |
| Ysgol Bro Taf | BL7 – BL11 | 1 | 10 |
| Ysgol Nant-gwyn | BL7 – BL11 | 1 | 12 |
| **CYFANSWM** | | **6** | **54** |

| Dosbarthiadau Cynnal Dysgu - Meithrin | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
| Ysgol Gynradd y Cefn | Derbynfa – BL2 | 1 | 8 |
| Cwmclydach Primary | Derbynfa – BL2 | 1 | 8 |
| **CYFANSWM** | | **2** | **16** |

| Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer Asesu ac Ymyrraeth yn y Blynyddoedd Cynnar | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
| Ysgol Gymunedol Abercynon | Blynyddoedd Cynnar | 1 | 8 |
| Ysgol Gynradd Parc y Darren | Blynyddoedd Cynnar | 1 | 8 |
| Ysgol Gynradd Llantrisant | Blynyddoedd Cynnar | 1 | 8 |
| **CYFANSWM** | | **3** | **24** |

| CCD Cyfrwng Cymraeg ar gyfer Disgyblion ag ADY Arwyddocaol | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Cyfnod Allweddol** | **Nifer y dosbarthiadau** | **Nifer y lleoedd (brasamcan)** |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Awel Taf | Derbynfa – BL2 + BL3 – BL 6 | 2 | 18 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Garth Olwg | BL7 – BL11 | 1 | 14 |
| **CYFANSWM** | | **3** | **32** |

| Ysgolion Arbennig |
|---|
| Ysgol Arbennig Park Lane |
| Ysgol Tŷ Coch |
| Ysgol Hen Felin |
| Ysgol Arbennig Maesgwyn |

| Uned Atgyfeirio Disgyblion |
|---|
| Canolfan Addysg Tai |
| Canolfan Addysg Tŷ Gwyn |

Cytunir ar bob lleoliad arbenigol gan y Paneli Lleoli ADY Mynediad a Chynhwysiant a Phaneli EOTAS gan ddefnyddio Meini Prawf Lleoliad Arbenigol Mynediad a Chynhwysiant.

## Carfanau Penodol o Blant a Phobl Ifainc ag ADY

Bydd Rhondda Cynon Taf yn paratoi ac yn cynnal CDU ar gyfer plant a phobl ifainc sydd ag ADY, **plant sy'n derbyn gofal, sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol,** mynychu **ysgolion/lleoliadau annibynnol** ac **sy'n derbyn addysg ddewisol gartref.**

Ar gyfer **Plant sy'n Derbyn Gofal** sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd, bydd yr ALl yn cynnal y CDU trwy adnoddau dirprwyedig yr ysgolion.

## Offer Arbenigol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau. Mae hyn yn cynnwys cymhorthion ategol megis offer TG (e.e. gliniaduron, meddalwedd cyfrifiadurol), troshaenau lliw ac ati. Gall Mynediad a Chynhwysiant ac asiantaethau allanol fel Gwasanaethau Therapi Iechyd hefyd argymell offer arbenigol pwrpasol.

Bydd ysgolion yn darparu'r holl offer arbenigol / ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi cynhwysiant a mynediad i ddisgyblion ag ADY.

Bydd yr ALl yn darparu offer arbenigol gwerth dros £500.

**Adolygu trefniadau ar gyfer ADY a DDdY**

Mae'r Cod ADY yn gosod dyletswydd ar ALl Rhondda Cynon Taf i gadw'r trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chyrff llywodraethu ei ysgolion a gynhelir ar gyfer plant a phobl ifainc ag ADY dan adolygiad. Mae'r ddyletswydd yn golygu bod ALl Rhondda Cynon Taf yn cynnal adolygiad strategol o'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol a threfniadau eraill i gefnogi'r gwaith o nodi anghenion a'r ddarpariaeth i'w diwallu. Does dim amserlen na chylch penodol ar gyfer cynnal adolygiad. Bydd yr ALl yn gwneud y penderfyniad yma'n seiliedig ar ddadansoddiad parhaus o ddata a dulliau eraill o gasglu gwybodaeth.

Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw’r ddarpariaeth sydd ar gael o fewn yr ALl yn ddigonol a lle mae’n nodi bod y trefniadau’n annigonol mewn unrhyw ffordd, yn cymryd camau prydlon i fynd i’r afael â materion. Gall adolygiad hefyd ystyried y trefniadau a wneir mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol gan y Sefydliadau Addysg Bellach lleol, yn enwedig Coleg y Cymoedd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer y plant a’r bobl ifainc y mae’r ALl yn gyfrifol amdanyn nhw.

Bydd ALl Rhondda Cynon Taf hefyd yn ystyried digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys maint a gallu’r gweithlu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Bydd yr ALl yn cymryd pob cam rhesymol i unioni unrhyw annigonolrwydd a nodir.

Bydd Rhondda Cynon Taf yn cofnodi canlyniadau adolygiadau ac yn cyhoeddi crynodeb o gasgliadau lurs ynghylch digonolrwydd y trefniadau ac unrhyw gamau a gynigir i unioni unrhyw annigonolrwydd ar wefan y Cyngor.

Dylai'r adolygiad hysbysu'r ALl o'r graddau y mae'r canlynol ar gael mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn Rhondda Cynon Taf:

(a) addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifainc unigol;

(b) ymyrraeth a chymorth wedi'u targedu ar gyfer plant a phobl ifainc ag ADY;

(c) systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd a chyrhaeddiad plant a phobl ifainc ag ADY a'u cynnwys ym mywyd beunyddiol yr ysgol;

(d) trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr mewn achosion pan fo’n briodol gwneud hynny;

(d) trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd yr ymyriadau a ddefnyddir i gefnogi plant a phobl ifainc ag ADY a sgiliau ac arbenigedd staff;

(f) trefniadau ar gyfer cynnwys plant, pobl ifainc a rhieni ym mhob cam.

(Cod ADY 7.10)

Wrth gynnal ei adolygiadau, bydd yr ALl yn ymgynghori â’r personau a/neu’r cyrff y mae’n eu hystyried yn briodol ac ar adegau y mae’n eu hystyried yn briodol.

Bydd yr ALl yn adolygu ystod o ddata a thystiolaeth wrth ddod i’w gasgliadau

ynghylch digonolrwydd ei ddarpariaeth ADY gan gynnwys:

- canfyddiadau a chanlyniadau unrhyw apeliadau neu hawliadau diweddar i'r Tribiwnlys ac unrhyw anghytundebau ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol yr ymdriniwyd â hwy ar lefel leol;
- nifer y disgyblion ag ADY yn ardal yr awdurdod lleol sydd ar fin trosglwyddo o'r cyfnod cyn-ysgol i'r ysgol, o'r ysgol i addysg bellach a'r rhai sy'n trosglwyddo o un lleoliad addysg feithrin/ysgol/SAB/ardal awdurdod lleol i un arall;
- lleoliadau y tu allan i'r ardal mewn lleoliadau addysg a wneir ar gyfer y rhai ag anghenion lefel isel neu uchel;
- canfyddiadau adroddiadau arolygu Estyn ac adolygiadau thematig perthnasol;
- gwybodaeth berthnasol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol;
- unrhyw rwystrau a nodwyd sy'n atal plant a phobl ifainc rhag cael mynediad i wasanaethau ADY;
- gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol a gasglwyd gan yr awdurdod lleol am y DDdY a ddarperir i blant a phobl ifainc y mae'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar eu cyfer sy'n cael eu haddysgu gartref, mewn ysgol annibynnol neu rywle arall heblaw yn yr ysgol.

*Gweler Pennod 7 y Cod ADY am ragor o fanylion*.

**Datganiad i gloi**

Bydd Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant Rhondda Cynon Taf yn parhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau statudol fel yr amlinellir yn y Cod ADY. Darperir cymorth ac arweiniad trwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys hyfforddiant, sesiynau cyngor galw heibio, prosesau sicrhau ansawdd DDdY ac atgyfeiriadau i Wasanaethau Seicoleg Addysg a Gwasanaeth Cynnal Dysgu.

Mae Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i gydweithio â'i ysgolion, plant a phobl ifainc, rhieni/gwarcheidwaid ac asiantaethau partner i sicrhau bod plant a phobl ifainc ag ADY yn Rhondda Cynon Taf yn gallu cael mynediad i system addysg gwbl gynhwysol sy'n galluogi iddyn nhw lwyddo a dod yn aelodau gwerthfawr a gweithgar o'u cymunedau lle.